**<u>Atodiad 4 – Grant y Gymraeg Mewn Addysg a Chynlluniau Strategol y Gymraeg Mewn Addysg</u>**

**<u>Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio Rhanbarthol – Opsiynau Strategol ar gyfer Grant Y Gymraeg Mewn Addysg a Chynlluniau Strategol y Gymraeg Mewn Addysg</u>**

## 1. Cefndir a Chyd-destun

a) Roedd cyn Gonsortiwm Addysg Gogledd Cymru yn arfer cydlynu monitro Grant y Gymraeg Mewn Addysg. Roedd Arweinydd y Consortiwm yn gyfrifol am faterion ariannol, swydd y Consortiwm yn gyfrifol am gydlynu a monitro'r grant a'r cynllun rhanbarthol yn strategol a swyddog arall o'r Consortiwm yn gyfrifol am weinyddu a thaliad y grant.

## 2. Trefniadau Cyfredol Grant y Gymraeg Mewn Addysg

a) Mae un swyddog amser llawn oedd yn gyfrifol am weinyddiad a thaliad y grant (un o gyfres o grantiau rhanbarthol) wedi cael ei drosglwyddo o gyn Gonsortiwm Addysg Gogledd Cymru i GwE ers mis Medi 2014. Mae GwE felly wedi mabwysiadu'r cyfrifoldebau gweinyddu a thalu sy'n gysylltiedig â'r grant fel rhan o'r trosglwyddiad staff hwnnw. Mae GwE eisoes felly wedi ei alinio â'r Model Cenedlaethol yng nghyswllt gweinyddu a thalu'r grant hwnnw.

b) Mae Cyngor Gwynedd ar hyn o bryd yn awdurdod bancio ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru a GwE a defnyddir fformiwla y cytunwyd arni yn rhanbarthol ar gyfer dosbarthu'r grant i awdurdodau unigol i gynorthwyo gyda delifrio eu Cynlluniau Strategol. Rhagdybir y bydd Cyngor Gwynedd yn parhau i fod yn awdurdod bancio ar gyfer grant y Gymraeg Mewn Addysg. Rhagdybir hefyd y bydd fformiwla y cytunir arni yn rhanbarthol yn parhau i gael ei defnyddio unwaith y bydd y grant yn dod yn rhan o Grant Gwella Addysg newydd Llywodraeth Cymru ym mlwyddyn ariannol 2015 - 2016.

c) Mae awdurdodau unigol yn datganoli cyfran o Grant y Gymraeg Mewn Addysg i ysgolion.

## 3. Trefniadau cyfredol ar gyfer Cynlluniau Strategol y Gymraeg Mewn Addysg

a) Mae swyddog o Gyngor Gwynedd yn gyfrifol ar hyn o bryd am gydlynu'r cynllun rhanbarthol ac am alinio nodau Strategaeth Addysg Cyfrwng Gymraeg Llywodraeth Cymru gan fod Pennaeth Addysg Adran Addysg Gwynedd yn cadeirio'r Is-grŵp Cyfrwng Cymraeg ac Adeiladu Cynhwysedd rhanbarthol.

b) Mae'r Is-grŵp rhanbarthol hwn yn darparu rôl sicrhau ansawdd yn y ffaith ei fod yn trafod ac yn rhannu arferion da ar draws y rhanbarthol ac yn gosod amcanion rhanbarthol clir mewn cyswllt â delifrio nodau Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru. Mae Cadeirydd y grŵp hwn (Pennaeth Addysg Cyngor Gwynedd) hefyd yn darparu rôl sicrwydd ansawdd ar gyfer y rhanbarth yng nghyswllt y Cynllun Strategol rhanbarthol.

c) Cynhyrchir Cynlluniau Strategol y Gymraeg Mewn Addysg gan awdurdodau unigol yn seiliedig ar flaenoriaethau'r Awdurdodau Lleol hynny ac fe'u cynhwysir mewn un cynllun rhanbarthol sydd yna'n cael ei gymeradwyo, ei fonitro ac y sicrheir ei ansawdd yn erbyn nodau Strategaeth Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru gan Uned y Gymraeg Mewn Addysg Llywodraeth Cymru.

d) Nid yw GwE ar hyn o bryd yn cydlynu nac yn sicrhau bod nodau'r Strategaeth Addysg Cyfwng Cymraeg Genedlaethol yn cael eu cyflawni drwy sicrhau bod y Cynllun Strategol rhanbarthol mewn aliniad â'r Strategaeth honno, ond gwneir hyn i raddau gan swyddog Cyngor Gwynedd sy'n cydlynu'r cynllun rhanbarthol, yr Is-grŵp Cyfrwng Cymraeg rhanbarthol a Chadeirydd y grŵp hwnnw.

e) Mewn rhai achosion, ymgynghorir â GwE wrth lunio Cynlluniau Strategol y Gymraeg Mewn Addysg a bydd yn rhoi mewnbwn i'r cynlluniau hynny.

**4. Ymrwymiadau a Chyfrifoldebau Statudol:**

a) Ar 4 Mawrth 2013, daeth Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion Cymru 2013 i rym. Mae Awdurdodau Lleol, yn rhinwedd y ddeddf hon, yn gyfrifol am baratoi Cynlluniau Strategol y Gymraeg Mewn Addysg ac am eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru am gyfnod o 3 blynedd o fis Ebrill 2014 hyd fis Mawrth 2017. Mae'r cynlluniau hyn yn amlinellu sut y mae Awdurdodau Lleol yn bwriadu cyflawni nodau ac amcanion Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru.

b) Mae swyddogion o'r Awdurdodau Lleol yn gyfrifol am gydlynu'r pwyllgorau, gweithgorau a'r rhwydweithiau sy'n cyfrannu i Gynlluniau Strategol y Gymraeg Mewn Addysg. Dylid pwysleisio bod y dyletswyddau hyn yn rhan o rôl ehangach swyddi swyddogion o fewn Adrannau Addysg sy'n cyfrannu tuag at baratoi, cyflwyno a chyflawni'r cynlluniau dan sylw.

**5. Gofynion y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio Rhanbarthol:**

a) Er mwyn diwallu gofynion y Model Cenedlaethol, disgwylir i GwE ymgymryd â'r dyletswyddau isod:

"**cydlynu ac yn sicrhau ansawdd** gweithgarwch i fodloni nodau'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg drwy sicrhau bod y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a'r Grant Cymraeg mewn Addysg yn gydnaws â'i gilydd ar draws pob un o'r awdurdodau lleol ac ym mhob un o'r consortia rhanbarthol, fel bod cysondeb o ran datblygu rhagoriaeth mewn addysgeg ac o ran bodloni'r targedau y cytunwyd arnynt, nid yn unig ar draws y sectorau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, ond hefyd wrth gyflwyno Cymraeg fel ail iaith.".

b) Mae'r dehongliad o eiriad y Model Cenedlaethol yn bwysig wrth ystyried yr opsiynau canlynol ar gyfer alinio. Deallir bod y Model Cenedlaethol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Consortiwm Addysg Ranbarthol (GwE bellach) i gydlynu a sicrhau ansawdd y cynllun rhanbarthol a dosbarthu a rhannu'r grant er mwyn sicrhau bod nodau ac amcanion Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg y Llywodraeth yn cael eu cyflawni. Nid yw'r Model Cenedlaethol yn nodi bod y Consortiwm Addysg rhanbarthol (GwE) yn gyfrifol am baratoi, cyflwyno'r cynllun Strategol i'r Llywodraeth na chyflawni'r cynlluniau strategol a wneir yn gyfredol gan swyddogion Awdurdodau Lleol (a ariannir yn rhannol gan Grant y Gymraeg Mewn Addysg ac arian craidd Awdurdodau Lleol yn unol â'r hyn a nodir yn eu Cynlluniau Strategol).

6. **Opsiynau Strategol**

a) Yn wyneb y ffeithiau uchod, ystyrir y gallai'r opsiynau cyfredol ddiwallu gofynion y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio Rhanbarthol yng nghyswllt y rol cydlynu rhanbarthol a sicrhau ansawdd:

| | | | **Sgor isaf 1 – Sgor Uchaf 5** | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Opsiynau** | **Manteision** | **Anfanteision** | **Aliniad gyda'r Model Cenedlaethol** | **Ychwanegu Gwerth** | **Potensial ar gyfer cyflawni'n llwyddiannus** | **Cyfanswm Sgor** |
| 1. **Gwneud Dim (Parhau gyda'r trefniadau cyfredol)**<br><br>(h.y. cyn swyddog y Consortiwm bellach yn gweinyddu'r grant drwy GwE / Gwynedd i barhau yn awdurdod bancio / Gwynedd i barhau yn awdurdod arweiniol o ran cydlynu'r cynllun rhanbarthol / Cadeirydd yr Is-grŵp a'r grŵp ei hun i ddarparu rôl sicrhau ansawdd yng nghyswllt cyflawni amcanion Strategaeth Addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru) | • Parhad gwasanaeth heb unrhyw newid<br>• Cydweithio rhanbarthol cryf yn rhinwedd yr is-grŵp a Phennaeth Addysg Gwynedd fel Cadeirydd<br>• Mantais profiad a gwybodaeth y grŵp mewn rôl sicrhau ansawdd a rhannu arfer gorau ar draws y rhanbarth<br>• Dim costau ychwanegol ar gyfer cyflawni | • Ni fyddai GwE yn diwallu gofynion y rol cydlynu a sicrhau ansawdd<br><br>• Dim cyswllt rhwng GwE a'r Awdurdodau Lleol yng nghyswllt y Cynlluniau Strategol ond cyswlt yng nghyswllt gweinyddu a dyrannu'r grant<br><br>• Dim gwerthusiad annibynnol o ansawdd a chysondeb Cynlluniau Strategol y Gymraeg Mewn Addysg | 0 | 0 | 0 | **0** |
| 2. **Creu swydd newydd o fewn GwE i wneud y gwaith cydlynu a sicrhau ansawdd rhanbarthol ar draws y rhanbarth**<br><br>(h.y. ni fyddai angen i Wynedd gydlynu'r cynllun rhanbarthol / byddai angen i'r Is-grŵp barhau i drafod a rhannu arferion da ar draws y rhanbarth er mwyn codi safonau / byddai swyddog o GwE yn aelod o'r grŵp hwnnw) | • Parhad gwasanaeth heb unrhyw newid<br>• Cydweithio rhanbarthol cryf yn rhinwedd yr is-grŵp a Phennaeth Addysg Gwynedd fel Cadeirydd<br>• Atebolrwydd clir yng nghyswllt cydlynu a sicrhau ansawdd y cynlluniau<br>• Byddai GwE wedi ei alinio yn llawn gydag anghenion y Model Cenedlaethol<br>• Cyswllt rhwng GwE ac Awdurdodau Lleol yng nghyswllt y cynlluniau a'r grant | • Cost ychwanegol swydd newydd<br>• Swydd ychwanegol yn strwythur GwE | 0 | 0 | 0 | **0** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | • Gallai'r swydd newydd ddarparu cyswllt mwy rhanbarthol gyda Llywodraeth Cymru Government<br>• Cost cymharol fychan swydd ychwanegol<br>• Byddai'r swydd yn canolbwyntio ar gydlynu a sicrhau ansawdd a byddai'n darparu cysondeb yn rhinwedd bod yn bresenoldeb parhaus ar yr is grŵp | | | | | |
| **3. GwE i gomisiynu ymgynghorydd annibynnol i wneud arolwg ansawdd o'r Cynllun Strategol rhanbarthol. Byddai canfyddiadau'r arolwg yn cael ei ddefnyddio gan GwE, Awdurdodau Lleol a'r Is-grŵp i rannu arferion da ac i yrru gwelliant**<br><br>(h.y. byddai cyn swyddog y Consortiwm yn gyfrifol am weinyddu'r grant drwy GwE / Gwynedd yn parhau yn awdurdod bancio / Gwynedd i barhau yn awdurdod arweiniol ar faterion y Gymraeg a chydlynu'r cynllun rhanbarthol / Cadeirydd yr Is-grŵp a'r grŵp ei hun i ddarparu rôl sicrwydd ansawdd yng nghyswllt cyflawni amcanion Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru) | • Parhad gwasanaeth heb unrhyw newid<br>• Cydweithio rhanbarthol cryf yn rhinwedd yr is-grŵp a Phennaeth Addysg Gwynedd fel Cadeirydd<br>• Mantais profiad a gwybodaeth y grŵp mewn rôl sicrhau ansawdd a rhannu arfer gorau ar draws y rhanbarth i yrru gwelliant<br>• Atebolrwydd clir yng nghyswllt yr awdurdod arweiniol i gydlynu cynhyrchu'r cynllun Strategol<br>• Atebolrwydd clir yng nghyswllt GwE i gomisiynu arolwg ansawdd annibynnol o'r cynllun Strategol<br>• Byddai GwE wedi ei alinio gyda gofyn y Model Cenedlaethol<br>• Cyswllt rhwng GwE a'r Awdurdodau Lleol yng nghyswllt y cynlluniau a'r grant<br>• Cost fechan ychwanegol i benodi ymgynghorydd i wneud arolwg sicrwydd ansawdd o'r cynlluniau Strategol (£5k - £10k)<br>• Byddai arolwg sicrwydd ansawdd annibynnol yn rhoi trosolwg gwrthrychol o'r cynlluniau Strategol<br>• Byddai ffocws GwE yn parhau ar yrru gwelliannau | • Byddai'r elfennau cydlynu a sicrhau ansawdd ar wahân - Cydlynu gyda'r Awdurdod arweiniol a sicrwydd ansawdd gyda GwE<br><br>• Byddai angen adnodd ychwanegol ar GwE i gomisiynu ymgynghorydd i wneud yr arolwg sicrwydd ansawdd<br><br>• Byddai hyn yn creu haen 'sicrwydd ansawdd' ychwanegol gan fod Uned y Gymraeg Mewn Addysg Llywodraeth Cymru eisoes yn sicrhau ansawdd y cynllun Strategol rhanbarthol | 0 | 0 | 0 | **0** |